**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa**
**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talybont. Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.**

---

**1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?**
**rhiant/ gofalwr neu warcheidwad**
**darpar riant / gofalwr neu warcheidwad Llywodraethwr**
**Staff**
**Aelod o'r gymuned**
**Cyngor cymuned**
**Arall: nodwch os gwelwch yn dda _Ffred Ffransis – ar ran Grwp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith**

**2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa:**
Fe brofwn yn ein tystiolaeth nad yw swyddogion Cyngor Ceredigion wedi cychwyn o safbwynt rhagdyb yn erbyn cau'r ysgol (sydd ar restr y Llywodraeth o Ysgolion Gwledig), nac wedi ceisio pob dull amgen cyn cynnig cau'r ysgol. I'r gwrthwyneb y mae'r Awdurdod wedi penderfynu yn y man gyntaf I gau nifer o ysgolion gwledig er mwyn gwneud arbedion yn y gyllideb, ac *wedyn* wedi cynnig dau opsiwn amgen gweddol anymarferol – a'u gwrthod gyda dadleuon generig – gan anwybyddu'r opsiynau amgen realistig. Nid yw'r Cyngor wedi sylweddoli chwaith y newid a waned I'r iaith Gymraeg yn yr ardal o gau'r ysgol, hyd yn oed wedi ymyrraeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith.

Mae'r diffygion yn nogfen ymgynghorol y Cyngor wedi codi am dri rheswm sylfaenol sydd wrth wraidd pob methiant arall yn y broses
a) Crewyd y dadansoddiad a'r cynnig fel ymarferiad biwrocrataidd yn swyddfeydd y Cyngor Sir. Ni bu ymweliadau a'r ysgol I drafod y sefylfa ac opsiynau amgen cyn ffurfio cynnig i gau'r ysgol. Mae trin pobl fel hyn yn gwbl groes I egwyddor hanfodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
b) Y broblem sylfaenol nesaf yw fod y Cyngor wedi trin Ysgol Craig-yr-Wylfa fel petai mewn gwagle, yn union fel arbediad potensial o wariant. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fodd bynnag, yn gofyn bod adolygu darpaeth addysg gynradd *fesul ardal.* Oherwydd y diffyg hwn, ni chanfuwyd yr opsiynau amgen gorau gw ymateb i gwestiwn 3.

c) Mae'r Cyngor wedi camddeall ei gyfrifoldeb o dan yr egwyddor "Rhagdyb yn erbyn cau Ysgolion gwledig" a gyflwynwyd yn argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.Yn hytrach , mae'r Cyngor wedi *dechrau* gyda bwriad I gau'r ysgol ac wedi credo y gall tgyflawni ei gyfrifoldeb trwy wrthod rhyw opsiwn amgen gyda brawddegau generig, a thrwy ofyn I eraill am unrhyw syniadau eraill aro l  cyflwyno cynnig I gau'r ysgol. Mae'r ymagwedd hwn yn sylfaenol I'r holl Bapurau Cynnig I gau'r ysgolion.

Dyma'r llinyn sy'n rhedeg trwy'r Papur Ymgynghorol – fod penderfyniad a chynnig  wedi bod ar ddechrau'r broses I gau nifer o ysgolion am resymau (digyswllt ag addysg) gwneud arbedion yn y gyllideb gyffredinol – yn gwbl groes i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd yn mynnu fod angen gweithredu ar sail rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig ar y rhestr (fel Craig-yr-Wylfa) a chynnig cau ddim ond os bydd pob cynnig arall yn methu. Yn lle hynny, penderfynodd swyddogion fod angen cau ysgolion, hysbysu penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr o'r bwriad a dweud y byddai maes o law gyfle iddynt fynegi unrhyw syniadau eraill. Dyma droi'r Cod ar ei ben.

Awgrymir yn y ddogfen fod  y broses wedi dechrau yn Chwefror 2024. Dywedir fod y cyfarfod Cyngor llawn i gymeradwyo arbedion cyllideb wedi digwydd ar 29/2/24 ar ol cyfarfodydd gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr yn ystod y mis. Ond yr hyn a wnaeth y Cyngor ar 29/2/24 oedd derbyn argymhelliad a wnaed yn niwedd Ionawr 2024 i edrych ar yr ystad o ysgolion er mwyn gwneud arbedion yn y gyllideb. ***Dyna yrrodd yr holl broses***. Galwyd *wedyn* y penaethiaid a'r cadeiryddion llywodraethwyr i mewn i'w hysbysu o'r bwriad I gau'r ysgolion a'u hysbysu y gallen nhw wedyn gynnig unrhyw opsiynau eraill. Mewn gohebiaeth gyda chadeirydd Llywodraethwyr Llangwyryfon (gw ohebiaeth yn yr atodiad), awgrymwyd y dylid aros tan yr Ymgynghoriad Statudol cyn cynnig sylwadau ac opsiynau.

Mae'r gweithred hwn o benderfynu ar fwriad i gau ysgolion ac *wedyn* dweud wrth bobl i anfon unrhyw opsiynau eraill atynt yn gwbl groes i'r hyn sydd yn Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a bwriad Senedd Cymru wrth ei gymeradwyo – fel y mae'r dystiolaeth yn dangos.. Mae'r Cod yn datgan yn glir fod "**Cyfraith Achosion wedi sefydlu y dylai Cyngor gynnal trafodaethau tr abo cynigion yn dal ar gam ffurfiannol**." Nid canllaw yn y Cod yw hwn, ond datgan beth yw'r sefyllfa gyfreithiol – sy'n cadarnhau'r egwyddor sylfaenol o sicrhau rhagdyb yn erbyn cau ysgol sydd ar restr y Llywodraeth o Ysgolion Gwledig (ac mae Ysgol Craig-yr-Wylfa ar y rhestr).

Petai angen rhagor o dystiolaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'n groes i'r Cod ac i ofynion cyfreithiol, dyma esboniad yr Ysgrifennydd dros Addysg, Kirsty Williams AS, mewn ateb i gwestiwn gan Suzy Davies AS mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 19.9.18 (wrth edrych ymlaen at y Côd yn dod i rym bum wythnos yn ddiweddarach), dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams "**Local authorities in those areas, if they have a school that's on the list, should start on the basis that closure is the last option and they should seek every opportunity through a variety of ways to keep those schools open"**

*Dyma gadarnhau mai bwriad Senedd Cymru, wrth gyflwyno argraffiad newydd y Côd, oedd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddechrau o safbwynt diffuant rhagdyb yn erbyn cau ysgolion ar y rhestr, gan droi at gynnig o gau ysgol ddim ond os metha pob peth arall*. Ychwanegodd Kirsty Williams "**Presumption against a closure and the option to seek alternatives to keeping a school open, again, should not be left to the official consultation period, but should be employed by the council before they make any decision to go out to consultation on the future of the school".**

Mae "*chwilio* am opsiynau amgen" yn amlwg yn golygu holi a gwahodd trafodaeth, nid dilyn rhestr generig mewn swyddfa. Mae'r Cod eto'n mynnu fod yr ystyriaeth o bob opsiwn heblaw am gau ysgol yn gorfod bod yn "ofalus" ac yn "gydwybodol". Ni fyddai unrhyw lys yn derbyn fod gwrthod opsiwn gydag un frawddeg generig, ac union yr un frawddeg ym mhob un o'r dogfennau cynnig am y 4 gwahanol ysgol yn gyfystyr ag "ystyriaeth ofalus". Does dim ymdrech o gwbl i ddehongli'r opsiynau yng nghyd-destun yr ysgolion unigol nag i geisio barn rhan-ddeiliaid.

Ym mhob rhan o'r broses, bu ymdrech i gynhyrchu dogfennau generig gyda'r bwriad o "dicio blychau" priodol yn unig yn hytrach nag ystyried mater difrifol iawn dyfodol ysgolion a chymunedau ac amharu ar addysg degau o blant. Nid beirniadaeth ar y swyddogion yw hwn, ond arwydd fod y swyddogion dan bwysau mawr wrth weithio, heb amser i ystyried na thrafod o ddifri, ac yn gweithio dan gamargraff nad oedd Senedd Cymru na'r gyfraith o ddifri ynghylch mynnu proses gywir wrth gymryd cam mor ddifrifol a chau ysgol.

Dim ond braslun sydd yma o'r diffygion o ran dilyn y broses a amlinellir yn y Cod. Yr ydym wedi copio'n tystiolaeth lawn yn ATODIAD A – sef testun ein cwyn i'r Ysgrifennydd Addysg nad oedd Cyngor Ceredigion wedi dilyn gofynion y Cod wrth fynd at benderfyniad i gychwyn Ymgynghoriad Statudol ar gynigion i gau'r

bedair ysgol. Yn anffodus, ni ddewisodd yr Ysgrifennydd Addysg ateb ein cwyn sylfaenol, na wneud unrhyw sylw am yr holl dystiolaeth a gyflwynon ni. Yn hytrach ymfodlonodd ar ddanfon atom aralleiriad eto o'r hyn a oedd yn y Cod ac yn hysbys yn barod i bawb. Ar ben hynny, credodd fod Cymdeithas yr Iaith wedi camddyfynnu brawddeg gan un swyddog gan y llywodraeth, a chadarnhaodd na wyddai ar ba sail yr oedd cyfarwyddwr yn y Cyngor Sir yn gallu dweud fod y Llywodraeth wedi cymeradwyo proses y Cyngor. Byddai wedi bod o fudd i ni, i'r rhanddeiliaid, ac i'r Cyngor ei hun petai hi wedi dyfarnu'n bendant ar y mater. Ond deallwn fod eraill wedi defnyddio rhywfaint o'n tystiolaeth mewn her cyfreithiol (gyda'n caniatad parod), a bydden ni'n dychwelyd at y Gweinidog i fynnu atebion i'r cwestiynau penodol petai cyhoeddi unrhyw Hysbysiad i gau'r ysgolion. Cyflwynwn ATODIAD A i'ch sylw.

**3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Craig yr Wylfa, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?**

**Oes X**

**Nac oes**

**Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):**

Gan fod y Cyngor wedi canolbwyntio ar sefyllfa unigol Ysgol Craig-yr-Wylfa – mewn ymgais i'w chau i neud arbedion ariannol - yn hytrach nag adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd trwy'r ardal, Mae'r Cyngor wedi mynd trwy gam gwag enwi dau opsiwn arall na fyddent o bosibl yn ddewisiadau gan rieni na llywodraethwyr. Y "dadansoddiad manwl" o opsiwn creu ffederrasiwn ffurfiol neu ysgol aml-safle rhwng Ysgolion Craig-yr-Wyfa a Thalybont yw ailadrodd ffigurau a chynnig un frawddeg generig yr un paham na byddai model felly'n datrys yr heriau a osodwyd.

Dewisiwyd y ddau opsiwn yna (a) oherwydd fod y ddwy ysgol yn cydweithio mewn clwstwr ar hyn o bryd, a (b) oherwydd ei fod yn ymddangos yn ateb mathemategol dda i lenwi tipyn o ofod gwag Ysgol Talybont gyda phlant o'r Borth – er y byddai Ysgol Talybont yn dal yn hanner gwag wedyn yn ol rhagamcangyfrifon y Cyngor, ac felly ni byddai'n ddsatrysiad i'w heriau.

Y broblem wrth ffurfio datrysiadau neu opsiynau mewn modd biwrocrataidd yw nad ydynt o reidrwydd y cydweddu a reality cysylltedd a chysylltiadau cymdeithasol yn yr ardal. Mae Ysgol Rhydypennau'n nes at Y Borth nag yw Ysgol Talybont. Mae trafnidiaeth gyhoeddus rhwng Y Borth a Rhydypennau, ac ymlaen I Aberystwyth, ac y mae angen ystyried fod cyfran uwch na'r

cyfartaledd o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi oamddifadedd economaidd ac yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. O ganlyniad, byddai nifer uwch eto yn dewis Rhydypennau neu Aberystwyth, ac y byddai gan rieni lawer llai o gyfrangoiad yng ngweithrediad yr ysgol, a'r plant yn llawer llai abl I gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi ysgol. Gall cynllun biwrocrataidd y Cyngor gyfarwyddo rhieni Y Borth I ddanfon eu plant I Dalybont, ond does dim sicrwydd y byddai hynny'n digwydd, yn enwedig ar ol y cyfnod cychwynnol o gludiant am ddim, os yw cysylltiadau'n rhwyddach gyda Rhydypennau ac Aberystwyth. Nid yw cynnig y cyngor yn opsiwn cynaladwy.

Llawer mwy ymarferol fyddai ffurfio ffederasiwn rhwng ysgolion Craig-yr-Wylfa, Rhydypennau a Thalybont, gan gynnwys hefyd o bosib Rhydypennau. Ond nid yw hwn yn cael ei grybwyll yn opsiwn heb son am unrhyw ymgais i werthuso'r manteision addysgol o gael cronfa ehangach o arbenigedd ymhlith staff, cyfle dod a phlant o'r un oedran at ei gilydd a rhannu adnoddau. Ni bu erioed unrhyw ymdrech I ddadansoddi'r arbedion potensial o ffederasiwn fel hwn – o ran rhesymoli gweinyddiaeth, pwrcasu, arweinyddiaeth integredig. Byddai modd hefyd arbed ar wariant cyfalaf trwy ddefnyddio ar adegau capasiti dros ben yn Y Borth a Thalybont ar gyfer disgyblion yn Rhydypennau a Phenrhyncoch yn lle gorfod adeiladu o'r newydd. Petai un ysgol aml-safle'n cwmpasu'r bedair safle, byddai mwy o rym byth I gyfarwyddo rhieni at safle ble oedd capasiti . Does dim o hyn wedi ei ystyred yn y ddogfen.

Gallai ffederasiwn 4 ysgol felly, neu un ysgol aml-safle felly hefyd fod yn rhan o ffederasiwn yn cwmpasu Ysgol Uwchradd Penweddig, a pheth o'r gofod gwag yno'n cael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau ffederasiwn e.e. pan ddaw plant o'r un flwyddyn ynghyd o'r gahanol ysgolion. Byddai trefniant arloesol o'r fath yn hwyluso trawsnewid o sector cynradd i uwchradd, yn clymu cyfran uwch o blant I mewn I addysg uwchradd Gymraeg ac felly'n llesol hefyd i Ysgol Penweddig. Ni bu unrhyw ystyriaeth o'r opsiwn hwn chwaith.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn mynnu hefyd fod ystyried defnydd amgen I ofod gwag mewn ysgol cyn cynnig ei gau, ac nid yw'n ddigonol I wrthod unrhyw opsiwn felly hefyd gydag un frawddeg generig. Mae rhagamcangyfrifon y Cyngor ei hun yn awgrymu y bydd angen edrych ar hyn yng nghyd-destun Ysgol Talybont. Gellid lleoli mewn gofod gwag swyddi gan y Cyngor neu gyrff cyhoeddus hefyd ; gellid cynnig gwasanaethau cymunedol eraill yn y gofodau gwag neu greu hwb cymunedol I'r ardaloedd gwledig yng ngogledd y sir.

Yn achos Y Borth, gellid cynnal trafodaethau lleoli weld a oedd unrhyw modd rhesymoli rhwng y 3 gwahanol adeilad o wasanaethau cyhoeddus, ond nid oes trafodaethau yn yr ardaloedd wedi digwydd.

**4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa ar unrhyw un o'r canlynol: y Gymuned Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol**
**Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ___________________**
**Rhowch fanylion pellach isod:**

**5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.**
**a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** Byddai effeithiau andwyol/negyddol iawn o ran yr effaith ar yr iaith Gymnraeg o weithredu'r cynnig fel y mae. Mae cyfran uwch o ddisgyblion Y Borth yn dod o aelwydydd di-Gymraeg, ac byddai felly effaith andwyol ar ddefnydd disgyblion Ysgol Talybont o'r Gymraeg. Mae swyddfa'r Comisiynydd Iaith wedi hysbysu'r Cyngor fod angen ystyried effaith gyfan unrhyw gynnig ar y Gymraeg, nid ymgyfyngu i un frawddeg am gyfrwng yr addysg mewn dwy ysgol. Mae gan bob gymuned ei nodweddion neilltuol a'I llwybr ei hun tuag at adfywuio'rrr Gymraeg yn eu plith, ac mae cymunedau Y Borth a Thalybont yn wahanol iawn i'w gilydd o ran y Gymraeg. Mae ymlyniad rhieni – ac yn enwedig mewnfudwyr – Y Borth tuag at y Gymraeg yn digwydd trwy deimlo perchogaeth ar yr ysgol leol sy'n Gymraeg ei chyfrwng ac yn cynrychioli'u dyhead fod eu plant o leiaf yn cael eu magu'n ddwyieithog. Os tynnir yr ysgol gymunedol oddiwrthynt, canfyddir y Gymraeg fel pwnc neu gyfrwng addysgol yn unig yn hytrach na rhywbeth yn perthyn iddyn nhwythau. O ganlyniad, os bydd gan fewnfudwyr waith yn nhre Aberystwyth, gall fod yn llawer haws iddynt fynd a'u plant I ysgolion yn Aberystwyth a fyddant, am rai blynyddoedd beth bynnag, yn Saesneg eu cyfrwng, ac ymlaen wedyn at addysg uwchradd Saesneg. Mewn gair, yr ysgol YW Cymreictod Y Borth a'r arwydd o adfywiad Cymraeg potensial yn y dyfodol. Ni all gweithredu'r cynnig wneud ond niwed I'r Gymraeg.

**b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**c. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny. A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori?**
**Ie IE**
**Na**
**Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post ffred@cadwyn.com**